# Cyfrannu at gynllunio a gwerthuso gweithgareddau addysgu a dysgu

## Trosolwg

### Ar gyfer pwy mae'r uned hon?

Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n helpu athrawon i gynllunio a gwerthuso gweithgareddau addysgu a dysgu

### Am beth mae'r uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â helpu'r athro i gynllunio sut bydd gweithgareddau addysgu a dysgu yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys eich rôl chi wrth gynorthwyo'r gweithgareddau, a rhannu eich barn a'ch safbwyntiau â'r athro am ba mor dda y cyflawnodd y gweithgareddau yr amcanion dysgu.

Gall y gweithgareddau addysgu a dysgu fod ar gyfer disgyblion unigol, grwpiau o ddisgyblion, neu'r dosbarth cyfan. Gellir cyflwyno'r gweithgareddau addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth neu unrhyw leoliad lle mae'r addysgu a'r dysgu'n digwydd megis astudiaethau maes, ymweliadau addysgol, darpariaeth oriau estynedig a threfniadau cymorth astudio.

### Mae'r uned hon yn cynnwys dwy elfen:

1. Cyfrannu at gynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu
2. Cyfrannu at werthuso gweithgareddau addysgu a dysgu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cyfrannu at gynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu**

P1 egluro a chadarnhau gyda'r athro eich dealltwriaeth o amcanion addysgu a dysgu'r gweithgareddau a sut caiff llwyddiant ei fesur

P2 rhoi adborth adeiladol ac amserol ar syniadau ac opsiynau sy'n cael eu harchwilio

P3 rhannu eich syniadau eich hun ar anghenion dysgu disgyblion a ffyrdd o fodloni'r rhain

P4 cynnig awgrymiadau realistig ac adeiladol ynghylch y cymorth y gallwch ei roi, gan ystyried unrhyw gryfderau a gwendidau penodol yn eich arbenigedd a'ch profiad a allai effeithio ar y cynlluniau sy'n cael eu gwneud.

P5 trafod a chytuno ar eich rôl wrth gyflwyno'r gweithgareddau addysgu a dysgu pan ydych yn gweithio ar eich pen eich hun ac wrth weithio mewn partneriaeth â'r athro

P6 tynnu sylw'r athro yn ôl yr angen at unrhyw anawsterau rydych chi'n eu rhagweld wrth gyflwyno'r gweithgareddau addysgu a dysgu a gynlluniwyd

P7 cynllunio eich amser i gyflawni eich cyfrifoldebau ar gyfer cyflwyno'r gweithgareddau addysgu a dysgu a gynlluniwyd a gwneud defnydd effeithiol o'r amser a ddyrannwyd

**Cyfrannu at werthuso gweithgareddau addysgu a dysgu**

P8 mynegi barn realistig a theg ar lwyddiant y gweithgareddau addysgu a dysgu gan ystyried y dulliau mesur llwyddiant y cytunwyd arnynt

P9 ystyried y cyd-destunau y cynhaliwyd y gweithgareddau addysgu a dysgu ynddynt wrth gynnig sylwadau arnynt

P10 nodi a rhannu gwybodaeth am gryfderau a gwendidau'r gweithgareddau mewn modd adeiladol

P11 cynnig awgrymiadau realistig ac adeiladol ar gyfer gwelliannau i'r gweithgareddau a'ch rôl wrth eu cynorthwyo

P12 delio ag unrhyw wahaniaeth barn mewn ffordd sy'n cynnal perthnasoedd gwaith effeithiol â chydweithwyr

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 y berthynas rhwng eich rôl eich hun a rôl yr athro yn yr amgylchedd dysgu
K2 eich rôl a'ch chyfrifoldebau chi a phobl eraill wrth gynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu, eu rhoi ar waith a'u gwerthuso
K3 eich rôl a'ch cyfrifoldebau chi o ran cynorthwyo dysgu disgyblion a goblygiadau hyn ar gyfer y math o gymorth y gallwch ei roi
K4 polisïau'r ysgol ar gyfer cynhwysiant a chyfle cyfartal, a goblygiadau hyn ar gyfer sut rydych chi'n gweithio gyda disgyblion
K5 y cwricwlwm ysgol perthnasol a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran disgyblion yn y pwnc/maes cwricwlwm ac ystod oedran y disgyblion yr ydych yn gweithio gyda nhw
K6 sut mae plant yn dysgu a goblygiadau hyn wrth gynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu
K7 unrhyw anghenion dysgu penodol ac arddulliau dysgu'r disgyblion dan sylw a sut y gallai'r rhain effeithio ar y gweithgareddau addysgu a dysgu a gynlluniwyd
K8 gwerth gwahanol gyd-destunau dysgu, (e.e. dan do, yn yr awyr agored, ymweliadau)
K9 yr egwyddorion sy'n sail i gyfathrebu, cynllunio a chydweithio'n effeithiol
K10 eich profiad a'ch arbenigedd mewn perthynas â chynorthwyo gweithgareddau dysgu a sut mae hyn yn berthnasol i'r gweithgareddau a gynlluniwyd
K11 eich cryfderau a'ch gwendidau mewn perthynas â chynorthwyo gwahanol fathau o ddysgu
K12 pwysigrwydd rheoli amser yn effeithiol a sut i gyflawni hyn
K13 sut i roi adborth mewn modd adeiladol ac mewn ffordd sy'n gwneud yn siŵr bod perthnasoedd gwaith yn cael eu cynnal

## Geirfa